Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
4Mehefin2015 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Ifor Dylan Williams, Rhys Pugh, Emyr Williams, Ian Jones, Geraint R. Jones
Cadeirio: Dafydd Iwan
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Erddyn Davies Gwyneth Thomas, Ed Huws, Sioned Williams

2. DATGAN BUDDIANT

Datganodd Dafydd Iwan fuddiant oedd yn rhagfarnu, sef Eitem 6, cais cynllunio Carrog, Rhos Bach, Caeathro, a gadawodd yr ystafell pan gafodd yr eitem ei thrafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Rhys Pugh
Eilio: Ifor Dylan Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Mynwent Sant Baglan

Paratôdd y Clerc bapur yn crynhoi'r sefyllfa bresennol.

Dogfen Comisiynwyr yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor Plwyf Llanfaglan dyddiedig 27 Hydref 1925 yn trosglwyddo holl fynwent Eglwys Sant Baglan a'r llwybr i Gyngor Plwyf Llanfaglan. Hyn hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb o dan adran 24 Welsh Church Act 1914 i gynnal a chadw unrhyw lwybr sy'n mynd drwy'r fynwent at yr Eglwys.

Mae'r cynllun yn dangos fod yr holl fynwent (h.y. y darn hen a'r newydd) wedi ei drosglwyddo i Gyngor Plwyf Llanfaglan.

Ymddengys felly fod y cyfrifoldeb ar Gyngor Cymuned Y Bontnewydd i gynnal a chadw'r llwybr o'r porth i'r Eglwys, yn ogystal â bod efo cyfrifoldeb dros y fynwent.

Mae trawsgludiad 7 Chwefror 1991 rhwng Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru i Gyfeillion Eglwysi di-ffrindiau wedi trosglwyddo adeilad yr Eglwys ond dim tir, i Ffrindiau Eglwysi di-ffrindiau

Plac ar wal y fynwent

Ceir plac ar wal y fynwent sydd wëid ei hymestyn yn darllen:

"Rhoddwyd y chwarter erw hwn o dir gan Arglwydd Glynllifon at ehangu'r fynwent 1930."

Mae'r sefyllfa'n parhau'n aneglur, ac mae'n bosibl fod yr ateb yn perthyn i gyfnod Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Chyngor Plwyf Llanfaglan.

Penderfynwyd y dylai'r Clerc atgoffa'r Eglwys yng Nghymru am eu cyfrifoldeb i gynnal a chadw a sicrhau diogelwch y Porth.

4.2 Grant Presenoldeb ar y We

Y Clerc wedi derbyn manylion gan y rhelyw o Aelodau ac am gysylltu efo'r rhai sydd heb ddarparu gwybodaeth.

4.3 Baw cŵn a thipio slei bach Lôn Groes

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Mae arwyddion yn rhybuddio rhag baeddu gan gŵn wedi eu gosod.

Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu glanhau'r safleoedd parcio o fwsog, sbwriel ac yn torri'r drain. Bydd hynny yn ystod yr wythnosau nesaf, pan fydd y Gang Cymunedol yn galw heibio'r pentref.

Yr unig ateb i'r tipio slei bach yw rhoi ffens wifren i gau'r adwy, ond does dim mwy o dipio wedi digwydd yn ddiweddar, ac felly awgrymwyd nad oes angen cymryd camau pellach os nad yw'r broblem yn digwydd eto.

4.4 Ffordd osgoi Bontnewydd

Cafodd y Clerc ateb gan Gyfarwyddwr Prosiect y Ffordd Osgoi wedi iddo ddanfon gohebiaeth at Lywodraeth Cymru.

- Astudiaethau ac arolygon defnyddwyr yn cael eu cynnal er mwyn penderfynu ar welliannau i lwybrau cerdded, beic a marchogaeth y gellir eu cynnwys yn y cynllun. Bydd mwy o wybodaeth erbyn diwedd 2015
- Datganiad amgylcheddol yn cael ei gynhyrchu yn ystyried sŵn, effaith weledol, llygredd ac effaith ar yr amgylchedd ddŵr
- Y cynigion cyffredinol o ran draenio dŵr yw cyfeirio'r llif i bantiau. Mae cynllun draenio wrthi'n cael ei baratoi a bydd yn barod yn ddiweddarach eleni.

4.5 Mainc Llanfaglan

Mae'r Clerc wedi gofyn i Wyn Williams baentio'r fainc ac edrych ar sefyllfa'r chwyn.

Awgrymodd y Cynghorydd Ifor Dylan Williams y dylid ystyried selio'r tyllau ble mae sgriwiau yn y fainc er mwyn rhwystro pydredd.

5.MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerc Mai 2015

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18
Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £5.83

5.3 Glanhau cysgodfanau Wyn Williams Ebrill – Mai 2015 Anfoneb 1504 £90.00

5.4 Clirio gwydr a gosod panel newydd arosfan Cartref Bontnewydd Anfoneb 1505 £384.00

5.5 Balans yn y banc 4 Mehefin 2015 £5,739.94

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Cais cynllunio C15/0490/19/LL

Codi adeilad allanol ar gyfer parcio cerbyd a storfa; Carrog, Rhos Bach, Caeathro, LL55 2TF

Penderfynwyd cymeradwyo'r cais

7. GOHEBIAETH

- Grant Datblygu Cymunedol Grŵp Cynefin
- Cwrs Cynllunio Cymru, Bae Colwyn, 15 Gorffennaf 2015
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn – Cylch yr Iaith
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Warchod Asedau Cymunedol
- Ymgynghoriad ar Amseriad Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru
- Gofal ac iechyd oedolion
- Cynhadledd Un Llais Cymru 8 Gorffennaf
- Llythyrau diolch am roddion gan Ganolfan Bro Llanwnda, Eisteddfod Bontnewydd, Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd, Lleu, Y Ganolfan

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

- Cylchdro Glan Beuno – bydd y gwaith yn dechrau ar 8 Mehefin

8. MATERION ERAILL

8.1 Cyfethol aelod newydd

Mynegodd y Cynghorydd Rhys Pugh ei fwriad i ymddiswyddo fel Cynghorydd gan y bydd yn symud o'r ardal i fyw ddechrau tymor yr Hydref.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymchwil o ran y broses i gyfethol aelod yn ei le.

8.2 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Gorffennaf wythnos yn ddiweddarach na dydd Iau cyntaf o'r mis. Roedd hyn oherwydd bod sesiwn Her Gwynedd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon nos Iau 2 Gorffennaf.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Gorffennaf 9 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd